# Cydymffurfedd Gudd

## Rhan A: Nodiadau'r Hyfforddwr

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

### 1 Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Ni all Evie (18 mis) siarad am ei hanghenion – dangosir ei "llais" trwy anafiadau, iechyd, ymddygiad, ac oediadau.
- Arwyddion: cleisiau, pwnio pen, llau pen, oedi o ran mynychu'r ysbyty.
- Mae Sophie yn lleihau pryderon ("cleisio'n hawdd," "gwnaeth plentyn arall hynny").
- Rhaid i weithwyr proffesiynol ddehongli profiad bywyd Evie, nid geiriau Sophie yn unig.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth**
- Sut allwn ni gofnodi llais plentyn pan na allant siarad?
- Beth oedd Evie yn ei gyfleu drwy ei hymddygiad/anafiadau?

**Gweithgaredd**
**Yn siarad fel Evie:** mae cyfranogwyr yn disgrifio ei bywyd o'i safbwynt hi.

### 4 Myfyrdodau Gweithiwr Proffesiynol

- Gweithwyr proffesiynol yn teimlo rhyddhad oherwydd y cydweithrediad arwynebol.
- Roedd cydymffurfio yn cuddio llais Evie (iechyd, ymddygiad).
- Risg o lithro: derbyniwyd canlyniadau positif (tai) heb brofi canlyniadau.
- Myfyrdod: mae cydymffurfedd gudd yn bwerus; rhaid ei herio.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth**
- Beth wnaeth gydymffurfedd Sophie yn argyhoeddiadol?
- Pa fannau dall a allai fod wedi effeithio ar farn broffesiynol?

**Gweithgaredd**
**Myfyrdod personol:** cofiwch amser pan wnaeth cydweithrediadau eich sicrhau – a oedd yn newid go iawn?

### 2 Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Niwed corfforol: anafiadau heb eu hesbonio, anghenion iechyd heb eu trin.
- Niwed emosiynol: ymlyniad aflonyddgar, ymddygiadau gofidus.
- Niwed datblygiadol: gofal ansefydlog, amgylchedd anniogel, esgeulustod.
- Risg hirdymor: trawma emosiynol cronig,datblygiad gwael.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth**
- Beth yw effeithiau hirdymor esgeulustod dro ar ôl tro?
- Pa niwed cudd y mae oedi wrth fynychu'r ysbyty yn ei ddatgelu?

**Gweithgaredd**
**Matrics Risg:** categorïau corfforol, emosiynol, datblygiadol.

### 5 Penblethau moesegol ac emosiynol

- Empathi at wendidau Sophie (iselder ôl-enedigol, problemau tai) yn erbyn diogelwch Evie.
- Gall gweithwyr deimlo gobaith mewn cydweithrediadau → Tuedd optimistiaeth.
- Effeithiau emosiynol: rhwystredigaeth, euogrwydd, hunan-amheuaeth.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth**
- Sut ydym ni'n osgoi cael ein gor-sicrhau gan gydymffurfedd rhieni?
- Pa emosiynau sy'n codi wrth reoli achosion o'r fath, a sut i'w rheoli?

**Gweithgaredd**
**Dadl:** a ddylai Evie fod wedi cael ei dychwelyd at Sophie ar ôl cael ei gosod dan Adran 76 am y tro cyntaf?

### 3 Diogelu a dyletswydd gofal

- Atgyfeiriad gan feddyg teulu wedi'i ohirio; ymwelydd iechyd wedi uwchgyfeirio pryderon.
- Ymchwiliad Adran 47; yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r broses; lleoliad maeth Adran 76.
- Cynllun CP: ymweliadau, cymorth rhianta, rhoi'r gorau i ysmygu, newidiadau tai.
- Cydymffurfiodd Sophie yn arwynebol ond cynyddodd y risgiau (ailgyflwyno'r ci, oedi mewn gofal)

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth**
- Ble wnaeth asiantaethau ymyrryd yn dda?
- Sut y dylid bod wedi osgoi llithro/oedi?
- Sut ydym ni'n profi a yw cydymffurfeddau = newid?

**Gweithgaredd/chwarae rôl**
**Cyfarfod grŵp craidd:** penderfynu a all Evie ddychwelyd adref neu aros ar wahân.

### 6 Dysgu ymarferol

- Cydymffurfedd gudd = cydweithrediadau arwynebol, nid newid.
- Rhowch flaenoriaeth bob amser i brofiad bywyd y plentyn dros naratif y rhiant.
- Osgowch lithro: adolygwch yn drylwyr, gosodwch amserlenni clir, uwchgyfeiriwch pan fo angen.
- Rhaid profi canlyniadau positif yn erbyn canlyniadau plant.
- Mae gwyliadwriaeth amlasiantaethol yn hanfodol.

**Awgrymiadau'r hyfforddwr/trafodaeth**
- Sut allwn ni amddiffyn ein hunain rhag rhagfarn cydymffurfio?
- Pa gamau ymarferol sy'n sicrhau ffocws ar y plentyn?

**Gweithgaredd/chwarae rôl**
**Senario:** penderfyniad rhyddhau o'r ysbyty – pwysoli stori Sophie yn erbyn dangosyddion risg Evie.

### Cymru: Cyfraith a Pholisi Allweddol

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** – Rhan 7 diogelu. Adran 76 llety (yn lle adran 20 yng Nghymru).
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)** – grwpiau craidd, cynadleddau adolygu, ymarfer plant dan 2 oed.
- **Deddf Plant 1989 (yn berthnasol yng Nghymru)** – ymholiadau Adran 47.
- **Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (Cymru)** – uwchgyfeirio i'r llys lle bo angen.
- **Dysgu o Fabi P ac Adolygiadau Ymarfer Plant Cymru** – peryglon cydymffurfedd gudd.

# Cydymffurfedd Gudd

**Rhan B: Taflen**

Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

## Nod

**Cydnabod cydymffurfedd gudd; osgoi llithro; cadw ffocws ar brofiad bywyd y plentyn.**

### Archwilio llais y person sydd mewn perygl

- Ni all Evie siarad – llais yn cael ei ddangos drwy anafiadau, ymddygiad, iechyd.
- Peidiwch â derbyn lleihau pryderon gan rieni.

### Myfyrdodau Proffesiynol

- Gweithwyr proffesiynol yn cal eu sicrhau gan bethau cadarnhaol arwynebol.
- Rhaid myfyrio ar duedd optimistiaeth a llithro.

### Effaith ar y person sydd mewn perygl

- Anafiadau dro ar ôl tro, iechyd heb ei drin, niwed emosiynol, oedi datblygiadol.
- Niwed hirdymor os yw esgeulustod yn parhau.

### Penblethau moesegol ac emosiynol

- Trawma rhiant yn erbyn diogelwch plentyn.
- Pwysau emosiynol ar weithwyr; gobaith, euogrwydd, rhwystredigaeth.

### Diogelu a dyletswydd gofal

- Ymholiad Adran 47; Gofal maeth o dan Adran 76.
- Rhaid profi cynllun CP yn erbyn canlyniadau i Evie.
- Cydymffurfedd a diogelwch.

### Dysgu ymarferol

1. Nodi cydymffurfedd gudd.
2. Blaenoriaethu profiad bywyd y plentyn.
3. Osgoi llithro gydag amserlenni clir.
4. Uwchgyfeirio pan fydd risgiau'n parhau.
5. Mae gwyliadwriaeth amlasiantaeth yn hanfodol.

### Cyfraith a Pholisi Allweddol Cymru

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 –** Rhan 7 diogelu; Adran 76 llety (yn lle adran 20 yng Nghymru).
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) –** grwpiau craidd, cynadleddau adolygu, ymarfer plant dan 2 oed.
- **Deddf Plant 1989 (yn gymwys yng Nghymru) –** ymholiadau Adran 47.
- **Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (Cymru) –** uwchgyfeirio i'r llys lle bo angen.
- **Dysgu o Fabi P ac Adolygiadau Ymarfer Plant Cymru –** peryglon cydymffurfedd gudd.